# **Thema:** Profiad o ofal



## SIARADWYR A CHYFLWYNIADAU

| SIARADWR | CYFLWYNIAD |
|---|---|
| Emily Baker | Cyflwyno Gwerthusiad Pan Fyddai'n Barod |
| David Westlake | Gwerthusiad Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, Trosolwg o'r cynllun peilot a'r gwerthusiad |
| Bethan Wilson | Prosiect Paratoi |

## PRIF UCHAFBWYNTIAU'R TRAFODAETHAU

- Roedd ffocws cryf ar wella pontio i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, eu helpu i symud o ofal i fod yn oedolyn yn ddiogel ac yn llwyddiannus trwy drefniadau gofal estynedig, cymorth ariannol a pharatoadau ymarferol
- Mae cydberthynasau a chefnogaeth ymarferol gynnar yr un mor bwysig â chymorth ariannol
- Mwy o gydweithio i wella canlyniadau plant, datblygu syniadau ymchwil gyda'n gilydd, ac archwilio blaenoriaethau

## GALW AM WEITHREDU

Sicrhau bod gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gydberthynasau dibynadwy, ac arweiniad ymarferol gan ofalwyr maeth, cynghorwyr personol a mentoriaid

Buddsoddi mewn cefnogaeth ataliol gynharach

Gwella dewis a chydlynu ar draws llwybrau cymorth, cynyddu ymwybyddiaeth, amddiffyn dewis gwirioneddol, a deall yn well sut mae ymyriadau lluosog yn gweithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau.



## CRYNODEB

Derbyniwyd cyflwyniadau ar gefnogaeth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydberthynasau, canllawiau ymarferol a chefnogaeth ariannol yn ystod y cyfnod pontio o ofal i fod yn oedolyn.

Cytunodd yr aelodau y gall mentrau ategu ei gilydd ac ymrwymwyd i barhau â thrafodaethau ar gydweithio i wella canlyniadau i blant.